Cael trafferth darllen y cylchlythyr hwn? Darllenwch ef yn eich porwr.


electoral administration
# bulletin






**Rhifyn 355 (Cymru) – 13 Rhagfyr 2023**


## Deddf Etholiadau: Newidiadau i gofrestru etholwyr tramor

**Cyhoeddi diweddariadau i ganllawiau etholwyr tramor i Swyddogion Cofrestru Etholiadol**

Ymhellach i Fwletin 344, rydym bellach wedi cyhoeddi canllawiau craidd wedi'u diweddaru i Swyddogion Cofrestru Etholiadol i gefnogi newidiadau Deddf Etholiadau 2022 i'r broses cofrestru etholwyr tramor.

Bydd y newidiadau hyn, y disgwyliwn iddynt ddod i rym ar 16 Ionawr 2024, yn golygu:

- Ni fydd terfyn 15 mlynedd ar hawliau pleidleisio mwyach
- Bydd y cyfnod cofrestru yn newid o bob blwyddyn i bob tair blynedd

Bydd hyn yn golygu y bydd dinasyddion Prydeinig nawr yn gallu pleidleisio yn etholiadau Senedd y DU, ni waeth pa mor hir y maent wedi bod i ffwrdd o'r DU. Bydd angen iddynt fod wedi byw yn y DU yn flaenorol, neu wedi'u cofrestru i bleidleisio yn y DU.

Mae'r canllawiau wedi'u datblygu mewn ymgynghoriad agos â chydweithwyr ar draws y gymuned etholiadol, gan gynnwys Cymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol (AEA), Cymdeithas Aseswyr yr Alban (SAA), Cymdeithas Prif Weithredwyr Awdurdodau Lleol (Solace), yr Adran Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau a'r Gweithgor Etholiadau, Cofrestru, a Refferenda (ERRWG).

Hyd nes y daw'r darpariaethau newydd i rym, mae'r rheolau presennol yn parhau i fod yn berthnasol felly rydym wedi cyhoeddi'r canllawiau wedi'u diweddaru ochr yn ochr â'r canllawiau etholwyr tramor presennol. Mae teitlau'r tudalennau canllaw wedi'u diweddaru yn nodi'n glir eu bod yn berthnasol ar ôl i'r ddeddfwriaeth newydd ddechrau, i'ch helpu i wahaniaethu rhwng y ddau set gwahanol o ganllawiau.

Unwaith y daw'r ddeddfwriaeth newydd i rym, bydd y canllawiau presennol yn cael eu tynnu oddi ar y wefan.

Y
Comisiwn
Etholiadol

## Cynnwys


**Deddf Etholiadau: Newidiadau i gofrestru etholwyr tramor**

Gwybodaeth am gyhoeddi canllawiau craidd wedi'u diweddaru i Swyddogion Cofrestru Etholiadol.

**Diweddariad ar ganllawiau**

Gwybodaeth am sut y gallwch archebu copïau caled o lawlyfrau gorsafoedd pleidleisio a chanllawiau cyflym, gyda dolenni i'r ffurflen archebu ar-lein.

Y dyddiad cau ar gyfer ffurflenni wedi'u cwblhau yw 19 Ionawr 2024.

Manylion adnodd newydd i Swyddogion Canlyniadau (Gweithredol) i gefnogi eu cynllunio ar gyfer etholiad cyffredinol nesaf Senedd y DU.

**Canllawiau i ymgeiswyr ac asiantiaid – Cadarnhad o gynnydd i derfyn gwariant ymgeiswyr CHTh**

**Canllawiau i ymgeiswyr ac asiantiaid – Cadarnhad o gynnydd i derfyn gwariant ymgeiswyr CHTh**


**Rydym yn cyhoeddi bwletinau Gweinyddu Etholiadol yn rheolaidd. Maent yn un o'n prif ffyrdd o gyfathrebu gyda Swyddogion Canlyniadau, Swyddogion Cofrestru Etholiadol a'u staff. Mae rhifynnau blaenorol Bwletinau Cymru, Lloegr a'r Alban ar gael fan hyn. Gallwch hefyd danysgrifio i'r Bwletinau Gweinyddu Etholiadol.**

## Diweddariad ar ganllawiau

**Ffurflen archebu llawlyfrau gorsafoedd pleidleisio a chanllawiau cyflym**
Rydym bellach yn derbyn archebion ar gyfer copïau caled o'r llawlyfrau gorsafoedd pleidleisio a'r canllawiau cyflym i'w defnyddio yn ystod etholiadau mis Mai 2024.

Y dyddiad cau ar gyfer cwblhau'r ffurflen archebu ar-lein yw dydd Gwener 19 Ionawr 2024. Byddwn yn argraffu i archebion felly mae'n bwysig eich bod yn darparu'ch ffigurau i ni erbyn y dyddiad cau. Nodwch, unwaith i chi gyflwyno'ch ffurflen archebu, ni fyddwch yn gallu newid yr archeb eich hun. Os bydd angen i chi newid eich archeb, cysylltwch â gwybodaeth@comisiwnetholiadol.org.uk.

Disgwylir i'r copïau caled gael eu dosbarthu erbyn canol mis Mawrth 2024, ond byddwn yn cadarnhau'r amseriad y dosbarthu mewn Bwletin yn y dyfodol.

**Paratoadau ar gyfer etholiad cyffredinol Senedd y DU**
Gan fod yn rhaid cynnal etholiad cyffredinol Senedd y DU cyn 28 Ionawr 2025, rydym wedi datblygu adnodd ategol ar gyfer Swyddogion Canlyniadau (Gweithredol) i gynorthwyo gyda phenderfyniadau a pharatoadau cynllunio cynnar.

Nod yr adnodd hwn yw cefnogi Swyddogion Canlyniadau (Gweithredol) gyda'u trafodaethau gyda'u tîm etholiadau i ddeall risgiau allweddol a pharodrwydd, a meddwl am yr hyn y gallant ei wneud yn eu rôl fel Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) ac fel uwch aelod o'u Hawdurdod Lleol neu Gyngor i helpu i liniaru risgiau ymhellach.

## Canllawiau i ymgeiswyr ac asiantiaid: Cadarnhad o gynnydd i derfyn gwariant ymgeiswyr CHTh

Daeth terfynau gwariant newydd i ymgeiswyr ar gyfer etholiadau Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu yng Nghymru a Lloegr i rym ar 12 Rhagfyr. Mae'r holl terfynau gwariant ar gyfer yr ardaloedd gwahanol yn cynyddu tua 37%.

Mae'r newidiadau hyn yn rhan o gyfres o newidiadau y mae Llywodraeth y DU yn eu gwneud, gan gynnwys i derfynau gwariant ymgeiswyr ar gyfer ystod eang o etholiadau. Ym Mwletin 354 buom yn ymdrin â'r newidiadau a wnaed ar 21 Tachwedd i derfynau gwariant ymgeiswyr ar gyfer etholiadau Senedd y DU ac etholiadau lleol.

Y Comisiwn Etholiadol, Cymru
Tŷ'r Cwmnïau, Ffordd y Goron, Caerdydd, CF14 3UZ
Ffôn: 0333 103 1929

gwybodaeth@comisiwnetholiadol.org.uk

**www.comisiwnetholiadol.org.uk**
© Y Comisiwn Etholiadol 2023

**Rhowch wybod i ni am unrhyw newidiadau i aelodau staff yn eich tîm. Bydd hyn ein helpu i sicrhau bod ein rhestr bostio yn gyfredol.**

**Os caiff Swyddog Canlyniadau/Swyddog Cofrestru Etholiadol ei benodi yn eich awdurdod, cysylltwch â'r tîm yng Nghymru drwy e-bostio gwybodaeth@comisiwnetholiadol.org.uk**

**Rydym yn anfon y cylchlythyr yma atoch gan ei fod yn cynnwys gwybodaeth bwysig am waith y Comisiwn Etholiadol sy'n berthnasol i chi. Mae'r cylchlythyr yn rhan o dasg gyhoeddus y Comisiwn Etholiadol sydd â'i sail yn Neddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000. Byddwn yn rheoli eich gwybodaeth bersonol a'ch manylion cyswllt yn unol â Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol a deddfwriaeth diogelu data y DU, fel sydd yn ein hysbysiad preifatrwydd (https://www.electoralcommission.org.uk/cy/hysbysiad-preifatrwydd)**

**Os nad ydych am dderbyn y cylchlythyr hwn mwyach, gallwch ddad-danysgrifio unrhyw bryd.**